



**GOFYNION POLISI COLEGAUCYMRU AR
GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU**

**THEMA 5: GWEITHLU ADDYSG BELLACH
ADDAS AR GYFER DYFODOL**

Mawrth 2021

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ehangu Thema 5 *Llwyddiant Pellach: Argymhellion Polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru mewn Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru* Colegau Cymru. Ynghyd â'n hadroddiad *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, mae'r dogfennau hyn yn cyflwyno gweledigaeth a gweithredu ymarferol ar gyfer Addysg Bellach yng Nghymru.¹

Crynodeb

Mae Colegau Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i greu gweithlu addysg bellach addas ar gyfer y dyfodol.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Ddatblygu'r ymagwedd tuag at ddysgu proffesiynol yn y Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, a chefnogi proffesiynoli'r gweithlu addysg bellach ymhellach
- Deddfwriaethu ar gyfer safonau proffesiynol ac isafswm gofynion cymhwysterau ar gyfer athrawon addysg bellach ac ar gyfer goruchwyllo Fframwaith Datblygu Gweithlu Ôl-16 trwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
- Archwilio'r ffordd y gellid cymhwyso Statws Athro Cymwysedig (SAC) a model proffesiynoldeb deuol priodol i addysg bellach
- Ymestyn cyfrifoldebau CGA ar gyfer rheoleiddio cymwysterau TAR a Thystysgrif Addysg i gynnwys y sector ôl-16 mewn ffordd briodol
- Ystyried sut gellir gwella'r system proffesiynoldeb deuol, gan ddysgu o'r arfer rhyngwladol gorau a gweithredu systemau DPP wedi eu hariannu i alluogi hyn, wedi ei lywio gan waith y Ganolfan arfaethedig ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol

Dysgu proffesiynol a'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Cyn ac yn ystod tymor blaenorol y Senedd, gwnaed buddsoddiad sylweddol yn seilwaith ffisegol colegau. Darparwyd cyllid ychwanegol hefyd i'r sector ysgolion i gynorthwyo ei weithlu i addasu i ofynion y cwricwlwm newydd. Mae'n rhaid i fuddsoddiad tebyg i'r gweithlu addysg bellach fod yn flaenoriaeth.

Roedd 110,415 o ddysgwyr wedi ymrestru mewn Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) yn 2018/19.¹ Oherwydd yr ystod o ddysgwyr yn y sector, yn ogystal â'i gynnig dysgu amrywiol, mae'n hanfodol bod gan y gweithlu addysg bellach ddigon o adnoddau a'u bod yn cael buddsoddiad digonol i sicrhau'r safon addysgu uchaf posibl. Dylai buddsoddiad fod yn seiliedig ar yr angen i annog arloesedd, creadigrwydd a hyblygrwydd.

Proffesiynoldeb y gweithlu addysg bellach

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi ymagwedd arloesol tuag at ddysgu i'r sector ôl-16. Mae pwyslais ar ddatblygu gallu proffesiynol y system addysgu a dysgu, datblygu arweinyddiaeth leol, galluogi ymarferwyr i wneud penderfyniadau am anghenion dysgwyr penodol, gwella arloesedd a chreadigrwydd, ac amlinellu pwysigrwydd dysgu ystyrlon.² Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddarparu adnoddau digonol ar gyfer y sector i annog arfer o'r fath ar gyfer y gweithlu ôl-16 ac i gefnogi proffesiynoli'r gweithlu addysg bellach yn barhaus. Fodd bynnag, ni ddylai'r ymagwedd hon, o reidrwydd, fod yn union debyg, gan fod y sector addysg bellach yn wahanol iawn i ysgolion.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol a chyfleoedd i gael deialog broffesiynol ar gyfer staff addysg bellach fel y nodir ar gyfer athrawon yng Nghwricwlwm newydd Cymru.³ Byddai hyn yn annog arweinwyr colegau ac ymarferwyr i gydweithredu ar sail genedlaethol yn ogystal â rhanbarthol i rannu syniadau arfer gorau a chaniatáu creadigrwydd ac arloesedd wrth ddylunio cwricwlwm i gyd-fynd ag anghenion dysgwyr unigol. Trwy broffesiynoli'r gweithlu addysg bellach ymhellach, bydd ymarferwyr ac arweinwyr mewn sefyllfa well i ddatblygu cwricwla i gyd-fynd â galw lleol a rhanbarthol a bydd yn sicrhau bod cyrsiau'n parhau i gael eu haddysgu yn y ffyrdd mwyaf ymgysylltiol, defnyddiol ac arloesol. Mae COVID-19 eisoes wedi trawsnewid y profiad dysgu ôl-16 ac mae'n rhaid llunio a chefnogi'r newid hwn.

¹ Stats Cymru, *Rhifau unigryw dysgwyr yn ôl ethnigrwydd a rhyw*, <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Lifelong-Learning-Wales-Record/uniquelearnernumbers-by-ethnicity-gender>, [Defnyddiwyd 11/02/2021].

² Llywodraeth Cymru, *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* (2020), <https://hwb.gov.wales/api/storage/afca43eb-5c50-4846-9c2d-0d56fbffba09/curriculum-for-wales-guidance-120320.pdf>, tud.7.

³ Llywodraeth Cymru, *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* (2020), <https://hwb.gov.wales/api/storage/afca43eb-5c50-4846-9c2d-0d56fbffba09/curriculum-for-wales-guidance-120320.pdf>, tud. 233.

Safonau proffesiynol ac isafswm gofynion ar gyfer y gweithlu addysg bellach

Safonau proffesiynol

Byddai'r sector addysg bellach yn elwa ar ymagwedd newydd tuag at weithredu safonau proffesiynol statudol i gynorthwyo datblygiad proffesiynol, arloesedd, arweinyddiaeth a chydweithredu. Yn 2017, cafodd fframwaith safonau proffesiynol ei ddrafftio, ond ni chafodd ei wneud yn orfodol fodd bynnag.⁴ Defnyddir ymagwedd orfodol o'r fath yn yr Alban lle mae Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban (GTCS) yn ei wneud yn ofynnol i bob ymarferydd addysg bellach gymryd rhan weithredol mewn adolygiadau proffesiynol a phrosesau datblygu gyda'u cyflogwyr unwaith y flwyddyn o leiaf. Mae'r broses hon yn cynorthwyo staff i adlewyrchu'n feiriadol ar eu hymarfer er mwyn gwella proffesiynoldeb i wasanaethu dysgwyr yn well.⁵

Trwy fabwysiadu model gorfodol, bydd y sector addysg bellach mewn sefyllfa well i ddarparu'r safon addysgu uchaf posibl er budd dysgwyr. Mae cyrsiau galwedigaethol yn aml yn gofyn i ymarferwyr weithredu fel gweithwyr proffesiynoldeb deuol. Mae eisoes wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru bod yn rhaid iddynt weithredu fel 'arbenigwyr' wrth addysgu ac yn eu galwedigaeth.⁶ Gan fod hon yn rôl benodol, dylai fod gan yr ymarferwyr adnoddau digonol, a dylent gydymffurfio â safonau proffesiynol sydd yn ofynnol gan eu proffesiwn deuol. Bydd aelodau o'r gweithlu addysg bellach, yn arbennig y rheiny sydd yn gweithio mewn proffesiynau wedi eu rheoleiddio, neu lle mae angen arddangos cymhwysedd penodol, yn gyfarwydd â'r gofyniad i orfodi. Byddai'r safonau hyn yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad y cwricwlwm, dylunio manylebau swydd a pherson, gweithredu fel offeryn meincnodi, ac i annog arloesi yn ogystal â helpu i wneud yr iaith Gymraeg yn greiddiol i raglenni dysgwyr.⁷

Fframwaith Datblygu'r Gweithlu Ôl-16

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gomisiynu datblygiad fframwaith ôl-16 sydd yn cefnogi safonau gorofodol trwy Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Ar ôl ei ddatblygu, a chyda'r safonau yn aros gyda CGA fel corff hyd braich o lywodraeth a chyflogwyr, bydd staff yn gallu bod yn hyderus o annibyniaeth y fframwaith. Mae CGA fel corff cofrestru ar gyfer ystod o ddisgyblaethau cysylltiedig mewn sefyllfa dda i roi trosolwg o'r sector addysg bellach amrywiol a'i ystod o staff addysgu. Canfu astudiaeth gwmpasu dysgu proffesiynol a gyhoeddwyd yn 2019 fod 86% o ymarferwyr addysg bellach yn meddu

⁴ Llywodraeth Cymru, *Arolwg ymgysylltu – safonau addysgu proffesiynol drafft ar gyfer y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru* (2017), <https://dera.ioe.ac.uk/29621/1/170524-professional-teaching-standards-fe-wbl-en-1.pdf>

⁵ The General Teaching Council for Scotland, *Professional Review and Development*, <https://www.gtcs.org.uk/college-lecturers/college-prd.aspx>, [Defnyddiwyd 16/02/2021].

⁶ Llywodraeth Cymru, *Safonau proffesiynol ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru* (2017), tud. 4.

⁷ Ibid.

ar gymhwyster addysgu neu gymhwyster Lefel 6. Dim ond 55% o ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) sydd â chymhwyster Lefel 6 neu'n uwch, ac mae 47% yn meddu ar gymhwyster addysgu. Mae 20% o ymarferwyr WBL ond yn gymwys hyd at Lefel 2/3.⁸ Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod rhai bylchau mewn ymarferwyr sydd â chymwysterau addas yn y sector addysg bellach lle byddai buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad pellach yn fuddiol. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddatblygu fframwaith lle mae'r holl staff addysg bellach yn cael cymorth, yn caffael cymwysterau perthnasol, ac yn gallu cael mynediad at gyfleoedd datblygu er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn y sefyllfa orau i wasanaethu dysgwyr. Dylai hyn yn ei dro gael ei fonitro gan CGA trwy ei adolygiad blynyddol o'r gweithlu addysg bellach/WBL. Efallai fod darpariaeth cymorth datblygu proffesiynol yn bodoli mewn nifer o gyrff ond mae'n rhaid ei gyflwyno yn y fath fodd ei fod yn ysbrydoli 'ymrwymiad' gan y proffesiwn a bod adnoddau digonol ar ei gyfer.

Statws Athro Cymwysedig (SAC)

Mae addysgu galwedigaethol yn gymhleth am ei fod yn cyfuno gwybodaeth am bwnc, gwybodaeth arbenigol o alwedigaeth/diwydiant/sector, ac ymarfer addysgu effeithiol.⁹ Gelwir meddiant o'r sgiliau hyn yn broffesiynoldeb deuol. Fel y nodwyd yn flaenorol, byddai adran o'r gweithlu addysg bellach yn elwa ar ddatblygiad proffesiynol pellach i uwchsgilio mewn rhai meysydd. Felly, dylai Llywodraeth nesaf Cymru archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno SAC priodol ynghyd â'r model proffesiynoldeb deuol.

Mae SABau yn gallu gosod eu gofynion mynediad eu hunain i ymarferwyr eu dysgu.¹⁰ Nid oes unrhyw fframwaith ar hyn o bryd i sicrhau bod angen i ymarferwyr feddu ar SAC mewn addysg bellach fel sydd yn wir am athrawon ysgol. Dylai fod cymhwyster addysgu priodol yn ofynnol gan ymarferwyr addysg bellach am nad yw cymhwys fel gweithiwr proffesiynol mewn diwydiant o reidrwydd yn sicrhau'r gallu i addysgu pobl eraill yn effeithiol. Mae addysgu o ansawdd uchel yn sgil ynddo'i hun.¹¹

Yn ei hanfod, ni ddylai archwilio opsiynau i ddarparu cymwysterau addysgu addysg bellach yn briodol ynghyd â model proffesiynoldeb deuol fod yn adlewyrchiad union o fodel ysgolion o SAC. Mae SABau yn endidau gwahanol i ysgolion. Maent yn ymgysylltu â grwpiau oedran gwahanol, yn darparu addysg alwedigaethol, ac yn datblygu rhaglenni dysgu sydd yn cyd-fynd â galw lleol a rhanbarthol. Oherwydd eu hamrywiaeth, dylai Llywodraeth nesaf Cymru archwilio opsiynau ar gyfer datblygu statws addysgu cymwys hyblyg sydd yn cyfuno addysgu yn yr ystafell ddosbarth â lleoliadau diwydiannol, ac yn

⁸ Llywodraeth Cymru, *Astudiaeth Gwmpasu Dysgu Proffesiynol Ôl-16* (2019), <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-12/post-16-professional-learning-scoping-study-executive-summary.pdf>, tud. 5.

⁹ Cymdeithas y Colegau, *The Dual Professional Toolkit* (2018), <https://www.aoc.co.uk/sites/default/files/Dual%20Professional%20toolkit.pdf>, tud. 6.

¹⁰ UCAS, *Further Education (FE) lecturers teach students over the age of 16*, <https://www.ucas.com/ucas/after-gcses/find-career-ideas/explore-jobs/job-profile/further-education-lecturer>, [Defnyddiwyd 18/02/2021].

¹¹ Institute for Learning, *Professionalism: Education and training practitioners across further education and skills* (2012), https://set.et-foundation.co.uk/media/110497/2012_10-lfl-professionalism-paper.pdf, tud. 4.

addysgu arferion diwydiant arloesol. Yn y pen draw, bydd model o'r fath o fudd i ddysgwyr am y byddant yn derbyn addysg o safon uwch.¹² Dylai pob ymarferydd addysg bellach presennol a phob darpar ymarferydd gael y cyfle i gyflawni a meddiannu statws SAC erbyn diwedd tymor nesaf y Senedd.

Yn ogystal, ar hyn o bryd, mae athrawon ysgol yn rhydd i fynd draw i addysgu mewn SABau ond nid yw ymarferwyr addysg bellach yn gallu addysgu mewn ysgolion oherwydd absenoldeb model SAC. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddarparu cyfleoedd priodol i staff newid rhwng sefydliadau, a sicrhau, pan fydd hyn yn digwydd, bod gan ymarferwyr adnoddau digonol i ddarparu'r safon addysgu uchaf posibl mewn amgylchedd newydd. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru helpu i lunio'r gweithlu addysg ôl-16 trwy ddatblygu cymhwyster addysgu ôl-16 arbenigol ar gyfer athrawon mewn chweched dosbarth a'r rheiny sydd yn gweithio mewn disgyblaethau academaidd mewn addysg bellach. Bydd hyn yn creu sylfaen gref ar gyfer hyrwyddo ymchwil ac astudiaeth ôl-radd mewn disgyblaeth academaidd yn ogystal ag o fewn ymarfer addysgu. Byddai hefyd yn helpu i greu pont fwy cadarn rhwng ysgol neu goleg a'r brifysgol.

Ymestyn pwerau rheoleiddio Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Mae gan CGA ofyniad statudol i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), i fonitro cydymffurfiaeth rhaglenni achrededig yn erbyn meini prawf Llywodraeth Cymru a thynnu rhaglenni achrediad yn ôl. Yn arwyddocaol, mae'r achrediad hwn o AGA ond yn digwydd ar gyfer athrawon ysgol.¹³

Mae CGA ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth proffesiynoldeb deuol i gyflwyno TAR/Tystysgrifau Addysg mewn ysgolion, gydag ysgolion yn gweithredu fel cyflogwyr, prifysgolion yn gweithredu fel cyrff hyfforddi, a CGA yn gweithredu fel corff rheoliadol. Fodd bynnag, nid yw CGA ar hyn o bryd yn rheoleiddio AGA yn y sector addysg bellach. Nid yw Deddf Addysg Cymru 2016 yn nodi bod angen i SABau gyflogi ymarferwyr sydd yn meddu ar SAC.¹⁴ Mae hyn yn golygu nad yw cylch gorchwyl CGA yn ymestyn i sicrhau y dylai SABau o reidrwyd gyflogi staff cymwys i'r un graddau. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio tuag at ddatblygu system wedi ei symleiddio sydd yn golygu bod TAR a Thystysgrifau Addysg mewn ysgolion yn cyd-fynd â system debyg mewn addysg bellach i danategu system SAC mewn ffordd briodol.

I gaffael y system hon, dylid trosglwyddo'r safonau arfer da cyfredol a gynhelir gan Lywodraeth Cymru i safonau proffesiynol gorfodol wedi eu rheoleiddio gan CGA. Byddai hyn yn galluogi CGA i achredu

¹² Carys Davies, 'Cofrestru Athrawon Addysg Bellach – Rhwystrau a Chyfleoedd ar gyfer Datblygu Proffesiynol', *Cyngor y Gweithlu Addysg*, <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/component/content/article/43-english/about/blog-archive/107-carys-davies-registration-of-further-education-teachers-the-obstacles-and-opportunities-for-professional-development>, [Defnyddiwyd 17/02/2021].

¹³ Cyngor y Gweithlu Addysg, *Achrediad Addysg Gychwynnol Athrawon*, <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/accreditation/ite-accreditation/initial-teacher-education-accreditation.html>, [Defnyddiwyd 24/02/2021].

¹⁴ Deddf Addysg Cymru 2014, *Adran 14*, <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/5/section/14/enacted>.

AGA mewn cydweithrediad â darparwyr hyfforddiant a SABau mewn addysg ôl-16 yn ogystal ag mewn ysgolion.

Gwella'r system proffesiynoldeb deuol

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddadansoddi ac ystyried arfer gorau rhyngwladol mewn proffesiynoldeb deuol i greu system sydd wedi ei theilwra, yn briodol ac o'r budd mwyaf i ymarferwyr addysg bellach yng Nghymru. Mae'r briff hwn yn nodi rhai agweddau ar arfer gorau rhyngwladol yn ymwneud â phroffesiynoldeb deuol. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid cynnal ymchwil bellach.

Gwlad y Basg:

Mae TKNIKA yn ganolfan arloesedd ac ymchwil gynhwysol wedi ei lleoli yng Ngwlad y Basg. Cefnogir y ganolfan gan Lywodraeth y Basg.¹⁵ Mae'r sefydliad hwn yn darparu gofod cydweithredol a deinamig lle mae colegau hyfforddiant galwedigaethol yn gweithio mewn cydweithrediad â chwmnïau, adrannau ymchwil prifysgolion, a chanolfannau technegol i feithrin creadigrwydd ac arloesedd i fodloni galw technolegol yn yr ardal. Mae cyrsiau sydd yn cael eu harwain yn Tknika yn cael eu haddysgu'n bennaf gan athrawon o addysg alwedigaethol. Fodd bynnag, mae cydweithrediad agos â BBaCh sydd yn cyfathrebu anghenion dywidiannol lleol a phrosiectau i roi'r sgiliau caled a meddal gorau i'r dysgwyr ar gyfer yr adeg pan fyddant yn gorffen eu hastudiaethau. Mae Tknika wedi creu 'rhwydwaith o hybiau' fel llwyfan cyfathrebu i nodi galw am brosiectau, ac i annog arweinwyr prosiect i rannu arfer gorau er budd y dysgwr.¹⁶

Yr Almaen ac Awstria:

Yn yr Almaen ac Awstria, mae cydweithredu rhwng y sector galwedigaethol a busnes lleol yn hanfodol i gynnal system proffesiynoldeb deuol effeithiol. Yn y gwledydd hyn, mae amser y dysgwr yn cael ei rannu rhwng mynychu ysgol alwedigaethol a threulio amser mewn diwydiant. Yn yr Almaen, mae 70% o'r amser yn cael ei dreulio mewn diwydiant ac 20% mewn ysgol alwedigaethol. Yn Awstria, mae 80% o'r amser yn cael ei dreulio mewn diwydiant a'r 20% sydd yn weddill mewn ysgol alwedigaethol.¹⁷ Mae gan y sefydliadau perthnasol wedyn ddyletswydd i fodloni'r contract hyfforddi ar gyfer dysgwyr trwy ddarparu cyfleoedd penodol. Mae'r ysgol alwedigaethol yn canolbwyntio ar

¹⁵ Canolfan UNEVOC, *Tknika*, (2017), <https://unevoc.unesco.org/home/Explore+the+UNEVOC+Network/centre=3065>.

¹⁶ EFVET, *Tknika – Basque Centre of Research and Applied Innovation of VET*, <https://www.efvet.org/2019/04/17/tnika-open-days-a-window-to-the-future-of-the-vocational-education-training/>, [Defnyddiwyd 23/02/2021].

¹⁷ Lifelong Learning Programme, *An introduction to the Dual VET system: The secret behind the success of Germany and Austria*, https://www.dualvet.eu/docs/productos/1_The%20Dual%20VET%20system.pdf, [Defnyddiwyd 23/02/2021], tud. 15.

ddamcaniaeth sylfaenol yn ymwneud â phwnc ac addysg gyffredinol tra bod y cwmni hyfforddiant yn darparu gwybodaeth sy'n benodol i swydd trwy amodau gwaith bywyd go iawn.¹⁸ Felly, mae ymarferwyr yn gallu addysgu yn y meysydd y maent wedi cael hyfforddiant priodol ar eu cyfer a rhoi profiad galwedigaethol cyflawn i ddysgwyr. Mae cyfathrebu parhaus yn hanfodol i sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni eu potensial.

Ynghyd â dadansoddi arfer rhyngwladol gorau, dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithredu systemau DPP wedi eu hariannu sydd yn cael eu cofnodi trwy Basbort Dysgu Proffesiynol (PDP) CGA. Mae'r PDP yn offeryn dwyieithog i gyfleu, adlewyrchu, rhannu a chynllunio ymarfer addysgu.¹⁹ Dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wneud DPP yn orfodol a chefnogi'r gofyniad sydd eisoes yn weithredol mewn contract cyflogaeth cyffredin. Gyda CGA, dylid cyhoeddi cyfeiriad polisi clir i amlinellu'r hyn sydd yn cyfrif fel DPP er mwyn i bob ymarferydd addysg bellach allu rhoi enghreifftiau o dystiolaeth ddiweddar o wybodaeth alwedigaethol, a phrofiad perthnasol mewn diwydiant yn rheolaidd.²⁰

Yn ogystal, i wella system proffesiynoldeb deul, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer costau cyflogau trwy ddyraniad cyllid blynyddol addysg bellach i adlewyrchu'r sgiliau lefel uchel sydd yn ofynnol gan arbenigwyr diwydiant i fynd i mewn i'r sector. Ar hyn o bryd, mae gweithwyr proffesiynol diwydiant yn debygol o gael gwaith ar gyflog uwch mewn diwydiant na mynd i mewn i'r sector addysg bellach i addysgu dysgwyr. Bydd hyn yn caniatáu i gyflogwyr weithio mewn partneriaeth â'r undebau llafur addysg bellach i ddiwygio ac addasu'r contract cyffredin a galluogi darlithwyr cymwys a phrofiadol i barhau i addysgu wyneb yn wyneb yn hytrach na dewis dilyn llwybrau rheoli er mwyn datblygu eu gyrfaedd. Mae'r broblem hon yn cael ei gwaethygu ymhellach wrth annog gweithwyr diwydiant proffesiynol Cymraeg eu hiaith i fynd i mewn i'r sector. Mae tua 860,000 o bobl yn siarad Cymraeg yng Nghymru.²¹ Yn anochel, mae nifer y gweithwyr proffesiynol mewn diwydiant sydd hefyd yn siarad Cymraeg i safon y maent yn hyderus i'w defnyddio i addysgu yn her ychwanegol wrth geisio eu denu i'r sector addysg bellach. Dylid ystyried gofynion gorfodol gallu yn y Gymraeg mewn safonau proffesiynol a hefyd yn y rhaglenni SAC sydd newydd eu datblygu ar gyfer darlithwyr galwedigaethol ac academaidd.

¹⁸ Ibid.

¹⁹ Cyngor y Gweithlu Addysg, *Pasbort Dysgu Proffesiynol*, <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/professional-development/professional-learning-passport.html>, [Defnyddiwyd 23/02/2021].

²⁰ Llywodraeth Cymru, *Astudiaeth Gwmpasu Dysgu Proffesiynol Ôl-16* (2019), <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-12/post-16-professional-learning-scoping-study-executive-summary.pdf>, tud. 10.

²¹ Llywodraeth Cymru, *Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Gorffennaf 2019 i Mehefin 2020*, <https://gov.wales/welsh-language-data-annual-population-survey-july-2019-june-2020#:~:text=For%20the%20year%20ending%20to%2029%2C400%20fewer%20people>, [Defnyddiwyd 01/03/2021].

Y cyfarwyddyd hwn yw'r pumed mewn cyfres o bump yn cwmpasu'r themâu a nodwyd yn *Llwyddiant Pellach: Argymhellion Polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru Mewn Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes ar gyfer Cymru*.



Ffôn
02920 522 500

Colegau Cymru
U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

E-bost
helo@colegaucymru.ac.uk

Gwefan
www.colegau.cymru